OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1314 (Cy.136)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*14 Mai 2008*
Yn dod i rym - -	*6 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 6 Mehefin 2008.

Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

2.—(1) Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**2**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer y diffiniad o "milfeddyg".

(3) Yn lle paragraff (3) o erthygl 14, rhodder—

"(3) Rhaid i bob anifail sy'n cael ei symud o dan drwydded benodol gael ei gadw ar wahân i unrhyw anifail nad yw'n cael ei symud o dan awdurdod y drwydded honno, a hynny ar hyd y daith.".

Elin Jones
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2008

(**1**) 1981 p. 22. Cafodd swyddogaethau o dan Ddeddf 1981 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2003/1966 (Cy.211).